TGAU

Adroddiad Arholwyr TGAU (Newydd)

Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg
TGAU (Newydd)
Haf 2026

© WJEC CBAC Ltd.2026



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

Cefnogaeth bellach

Dogfen	Disgrifiad	Cyswllt
Dysgu Proffesiynol / DPP	Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig.	https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/
Cyn-bapurau	Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC
Gwybodaeth am ffiniau graddau	Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned. Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.	Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk)

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2026

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau	Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i staff y ganolfan gyrchu'r wefan hon.	Porth CBAC
Adnoddau Ystafell Ddosbarth	Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu.	https://adnoddau.cbac.co.uk/
Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol	Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC.
Dod yn arholwr gyda CBAC.	Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu.	Dod yn Arholwr | CBAC

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb gweithredol	Tudalen 5
Uned 1 : Naratif	Tudalen 6
Uned 2 : Hunaniaeth	Tudalen 11
Uned 3 : Agweddau	Tudalen 13
Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol	Tudalen 15

© WJEC CBAC Ltd.2026

Crynodeb Gweithredol

Uned 1 : Naratif oedd yr uned mwyaf poblogaidd gyda 6,283 o ymgeiswyr Blwyddyn 10 wedi eu cofrestru i sefyll yr arholiad. Dyma'r tro cyntaf i asesiad yn seiliedig ar astudiaeth o nofel fod yn ddi-haen yn y Gymraeg. Gosodwyd papurau oedd yn cynnwys 10 cwestiwn ac yn rhoi cyfle i'r holl ystod gallu ateb. Cadarnha'r ystadegau amrywiol bod perfformiad ar bob un o'r nofelau'n wahanol iawn. Roedd perfformiad yr ymgeiswyr a astudiodd Jac a Tom yn wannach gyda nifer o atebion gwag ar draws y papur, ond roedd atebion O Ran a Llyfr Glas Nebo yn gryfach.

3,544 ymgeisydd a gofrestrwyd ar gyfer **Uned 2 : Hunaniaeth** o 42 canolfan. Dyma uned sydd wedi trosglwyddo o arholiad llafar yn y fanyleb TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, gyda chanolfannau'n cael rhyddid i ddewis testun gweledol addas i'w hymgeiswyr. Er bod *Y Gwyll* ac *Y Weithred* yn parhau'n ddewisiadau poblogaidd, gwelwyd amrywiaeth o destunau eraill hefyd, gan gynnwys *Patagonia*, *Y Coridor*, *Tân ar y Comin* a *Hafiach*. Roedd yn galonogol gweld canolfannau'n dewis deunydd a oedd yn cyd-fynd â diddordebau a gallu'r ymgeiswyr. Ar draws yr ystod gallu, dangosodd y rhan fwyaf frwdfrydedd a gwybodaeth wrth drafod eu testunau. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn defnyddio terminoleg ffilm a llunyddiaeth yn hyderus, gan gysylltu technegau â themâu a syniadau'r gwaith.
Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr eleni wedi gor-baratoi, gan ddarllen trafodaethau wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw. Mae adroddiad unigol i bob canolfan yn cael ei chyhoeddi ar wefan IAMIS ar ddiwrnod y canlyniadau.

Uned 3 - Agweddau
Tasg 1 – Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi
1,003 Ymgeisydd a gofrestrwyd eleni o 15 canolfan.

Dyma'r tro cyntaf i ganolfannau astudio barddoniaeth ar gyfer tasg di-arholiad. Mae gan ganolfannau ddewis rhydd o gerddi: tair prif gerdd a thair synoptig ar thema penodol a gyhoeddwyd yn Ebrill 2025. Rhaid i'r cerddi fod wedi eu cyfansoddi gan feirdd o'r 20G a'r 21G. Dewiswyd ystod da o gerddi gan gadw at y gofynion o ran dethol cerddi caeth, rhydd a phenrhydd. Roedd y thema'n un agored ac roedd y detholiadau yn rhoi mynediad teg i'r ymgeiswyr. Roedd y canolfannau wedi ymdrechu i wahaniaethu'r detholiadau ar gyfer carfannau gwahanol o ddysgwyr. Roeddent hefyd wedi llunio cwestiynau meddylgar oedd yn rhoi mynediad i'r ymgeiswyr ymateb i AA1. Roedd yr ymgeiswyr ar y brig yn dangos dealltwriaeth gadarn o gynnwys y cerddi ac yn gallu cymharu a chroesgyfeirio'n ystyrlon. Wrth fynd i lawr yr ystod gallu nid oedd y cymharu a'r croesgyfeirio cystal, gyda'r ymgeiswyr gwannaf yn canolbwyntio gormod ar ysgrifennu am gefndir y cerddi, nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn, ar draul ymdriniaeth o gynnwys, arddull a mesurau'r cerddi.

Ar y marciau uwch roedd cywirdeb ieithyddol yr ymgeiswyr yn arbennig ond wrth fynd i lawr y bandiau marciau roedd gwallau ieithyddol sylfaenol yn amlwg – atalnodi, sillafu a pharagraffu.

Tasg 2 – Cyflwyniad Llafar Unigol
Y dasg lafar unigol oedd y gryfaf o'r ddwy dasg. Roedd y mwyafrif wedi dewis testun oedd â chyswllt clir â'r thema. Roedd yr ymgeiswyr yn llwyddo o'r bôn i'r brig i fynegi barn yn hyderus yn y cyflwyniad (sydd yn elfen newydd yn y fanyleb hon). Roedd geirfa dadansoddi ac ystyried dibynadwyedd ffynonellau yn gadarn. 5 munud yw hyd y dasg ond roedd sawl un yn cyflwyno am 7-9 munud oedd yn rhy hir. Roedd yr ymgeiswyr ar frig yr ystod yn cyflwyno'n hyderus ar lafar, ond wrth fynd i lawr y bandiau marciau roedd Saesneg yn amharu ar lif y cyflwyniadau. Mae darllen sgript eto yn elfen sydd angen sylw fel yn Uned 2.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG

TGAU (Newydd)

Haf 2026

UNED 1: NARATIF

Trosolwg o'r Uned

Dyma adroddiad ar arholiad cyntaf Uned 1 manyleb Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth. Mae'r newid i'r uned hon, astudio nofelau Cymraeg, yn sylweddol o gymharu â'r hen fanyleb. Gan nad oes haenau roedd yn rhaid sicrhau bod yr arholiad yn hygyrch i'r holl ymgeiswyr. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar sylwadau tîm o arholwyr allanol a fu'n arholi'r uned hon eleni. Mae'r diolch yn fawr am eu sylwadau adeiladol wrth bwyso a mesur cryfderau a gwendidau'r ymgeiswyr yn ymateb i'r arholiad ar ei newydd wedd.

Roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer yr arholiad a braf dweud bod yr ymatebion wedi bod yn gadarnhaol iawn. Disgyblion oedran blwyddyn 10 oedd yr ymgeiswyr ar gyfer y gyfres gyntaf hon. Trwy gyfres o gwestiynau byrion ac estynedig cafodd pob ymgeisydd gyfle i arddangos eu gwybodaeth am eu nofel o safbwynt y plot, dealltwriaeth o gymeriadau, themâu sy'n codi ac arddull yr awdur. Ar y papur eleni, cafwyd cwestiynau byrion yn adalw gwybodaeth a chwestiynau mwy heriol yn galw am ddealltwriaeth a sgiliau dehongli i drafod y nofelau mewn dyfnder. Roedd ymateb yn greadigol yn elfen bwysig o'r arholiad, ac roedd y cwestiwn ysgrifennu ymson wedi caniatáu dealltwriaeth dda o bersonoliaeth cymeriad, ei rôl yn y nofel a'r modd mae'n rhyngweithio ag eraill.

Roedd y safon yn dda ar y cyfan a rhaid canmol yr holl ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu am ymateb i'r arholiad newydd yn gadarnhaol a dyfalbarhau i roi o'u gorau yn y deg cwestiwn. Cynyddwyd amser yr arholiad eleni i 1½ awr a gwelwyd bod hyn yn ddigonol ar gyfer mwyafrif yr ymgeiswyr. Ond, yn anffodus, roedd enghreifftiau o gwestiynau 'gwag' lle nad oedd ymgeiswyr wedi ymdrechu eu hateb, un ai oherwydd prinder amser neu diffyg gwybodaeth. Byddai mwy o ymarferion amseru yn fuddiol mewn gwersi. Gyda chynifer o gwestiynau, anogir canolfannau hefyd i dynnu sylw ymgeiswyr at gyfanswm y marciau a roddir i bob cwestiwn. Dylai'r amser a dreulir ar gwestiwn adlewyrchu cyfanswm y marciau. Wrth i'r arholiad sefydlu bydd sgiliau arholiad fel hyn yn dod yn fwy cyfarwydd, ond mae'n werth tynnu sylw canolfannau at yr angen i hyfforddi ymgeiswyr i ddefnyddio'u hamser yn ofalus i sicrhau eu bod yn rhoi tegwch i bob cwestiwn gan adael amser digonol ar gyfer y traethawd, uchel ei farciau, ar ddiwedd yr arholiad.

Braf gweld bod canolfannau ar draws Cymru wedi astudio'r ystod lawn o nofelau. Mae Llyfr Glas Nebo ac O Ran yn parhau o'r hen fanyleb, ond astudiwyd y nofelau newydd, Llechi, Jac, Tom a #helynt, hefyd gan ganolfannau. Mae'n amlwg eu bod wedi dewis nofelau addas i'w hastudio gyda'u cynulleidfaoedd. Mae ymateb ymgeiswyr i'r llyfrau wedi bod yn ffafriol iawn. Mae Llyfr Glas Nebo yn parhau i fod yn ddewis poblogaidd a gwelwyd nifer fawr hefyd yn astudio'r nofel Jac.

Gan nad yw'r arholiad hwn wedi ei gynnal yn y ffurf yma yn y gorffennol mae'n anodd cymharu perfformiad a chyfresi blaenorol, ond mae'n galonogol nodi bod y safon wedi bod yn uchel ac wedi caniatáu i'r ystod gallu ennill marciau teilwng ar draws pob nofel.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd 60 o farciau i'w hennill yn yr arholiad hwn. Roedd 40 am Amcan Asesu 1 a 20 marc am Amcan Asesu 2 – sef cyfuniad o lenyddiaeth ac iaith. Er bod gwybodaeth dda gan ymgeiswyr am y nofelau gosod, cof am ddigwyddiadau, gallu i adalw a dadansoddi (AA1) mae'r elfen AA2 yn faes sydd angen gwelliant. Yn anffodus, roedd safon ieithyddol llawer o'r ymgeiswyr yn wan gyda chamgymeriadau cystrawennol, gramadegol, diffyg paragraffu a defnydd o eiriau Saesneg yn britho'r gwaith. Gan bod mwy o bwyslais ar fynegiant bellach mae'n bwysig bod canolfannau yn mynd i'r afael â'r camgymeriadau hyn i godi safonau. Nodwyd hefyd nad yw ymgeiswyr yn ymwybodol o gywair addas ar gyfer ateb cwestiynau, gyda'u hiaith yn adlewyrchu iaith lafar neu anffurfiol. Dylai canolfannau gryfhau mynegiant ymgeiswyr o flwyddyn 7 a pheidio â chymryd yn ganiataol y gall y mwyafrif ateb cwestiynau ffurfiol yn y cywair priodol. Ceir mwy o fanylion am y camgymeriadau ieithyddol yn yr adborth ar-lein fydd yn cefnogi'r adroddiad hwn.

Anogir canolfannau i lunio ymarferion byrion ar gyfer y cwestiynau adalw gwybodaeth, sy'n ymddangos mewn sawl ffurf e.e. tablau cywir/anghywir, ticio ffeithiau, pwyntiau bwled, gwneud cysylltiadau, er mwyn amlygu'r technegau ateb a chryfhau'r dysgu. Ar gyfer y cwestiynau estynedig, byddai cynnal trafodaethau llafar yn rhoi cyfle i rannu syniadau a dyfnhau'r dysgu cyn mynd ati i roi beiro ar bapur. Byddai ymgeiswyr is eu gallu yn elwa o gyfleoedd trafod ac yn dwyn i gof yr hyn a glywyd yn y papur arholiad. Nid yw'n dilyn y bydd pob papur yn y cyfresi sydd i ddod yn debyg i'w gilydd o ran trefn a dull y cwestiynau byrion.

Bydd y sylwadau sy'n dilyn yn dangos cryfderau a gwendidau'r cwestiynau ar draws y nofelau. Ceir ambell gyfeiriad at agweddau rhai nofelau a fu'n rhwystr eleni.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

C1 Adalw gwybodaeth AA1 – 2 farc

Gofynnwyd am wybodaeth am gymeriad penodol ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd yr atebion yn gyffredinol dda iawn. Rhoddwyd marciau am ffeithiau a gwelwyd bod llawer yn ennill marciau llawn gan ddangos gwybodaeth gadarn am y gwahanol gymeriadau. Dyma gwestiwn gwych i'w ymarfer ar lawr dosbarth.

Ambell sylw:

Llyfr Glas Nebo dryswch wrth drafod cymeriad Dylan, gyda Gwion a thad Siôn.

Llechi ni fu dim annhegwch yn dilyn y camgymeriad ar y papur a chyfeiriwyd unrhyw ateb amwys neu ymgeisydd a fyddai wedi dioddef yn sgil y gwall at y prif arholwr.

C2 Adalw gwybodaeth AA1 – 2 farc

Er bod tabl Cywir/Anghywir yn gyfarwydd fel dull arholi, gwelwyd rhai ymgeiswyr yn ticio atebion cywir yn unig. Tynnir sylw canolfannau i hyfforddi ymgeiswyr yn benodol sut i fynd ati i ateb cwestiynau o'r math hyn. Mae'n bwysig rhoi tic gyferbyn â phob datganiad. Y tro hwn roedd 2 ateb cywir a 2 anghywir. Cymysg oedd y safon yn gyffredinol.

C3 Adalw gwybodaeth AA1 – 2 farc

Nodwyd yn glir bod angen ticio 2 ffaith yn y blychau ar gyfer ateb y cwestiwn hwn a chafwyd atebion da ar y cyfan.

© WJEC CBAC Ltd.2026

C4 Ymateb personol AA2 – 6 marc

Dyma fath newydd o gwestiwn arholiad, ond un sydd yn cael ei wneud mewn trafodaethau naturiol wrth fynd drwy'r nofel mewn canolfannau mae'n siŵr. Nodwyd bod marciau am safon iaith ar gyfer y cwestiwn hwn. Gofynnwyd i ymgeiswyr roi eu hymateb i ddigwyddiad gan gyflwyno eu barn a rhoi rhesymau synhwyrol. Roedd safon yr ymatebion yn dda iawn o ran barn bersonol, gyda'r mwyafrif yn cyflwyno rhesymau o blaid ac yn erbyn y gosodiad wrth bwyso a mesur. Ond, gan bod hwn yn gwestiwn a oedd yn mesur gallu ieithyddol roedd y safon yn amrywio'n fawr ar draws yr ystod gallu. Fel nodwyd, gwelwyd iaith rhy lafar *e.e. Da ni'n gweld,* yn y gwaith ac roedd y defnydd o ferfau amodol i gyd-fynd â'r cwestiwn '*A ddylai ...'* yn wan iawn. Mae'n bwysig hyfforddi ymgeiswyr i wirio pa gwestiynau sy'n fwriadol yn asesu cywirdeb ieithyddol ac ymateb yn briodol iddyn nhw.

Ambell sylw:

Jac dewisodd rai ymgeiswyr hepgor y cwestiwn hwn – byddai banc o gwestiynau cyffelyb yn fuddiol i ymarfer y math hwn o gwestiwn, hyd yn oed ar lafar.

#helynt angen darllen y cwestiwn yn ofalus i sefydlu'r union adeg y disgwylir iddyn nhw gyfeirio ato – nid sôn am ddiwedd y nofel oedd bwriad y cwestiwn.

C5 Adalw gwybodaeth AA2 – 6 marc

Gofynnwyd i ymgeiswyr ailadrodd hanesyn neu olygfa arbennig. Mae hwn yn gwestiwn cyfarwydd i'r hen Haen Sylfaenol ac yn gyfle i ymgeiswyr ddangos eu cof am y digwyddiadau. Fe'n synnwyd fel arholwyr at fanylder ymatebion rhai ymgeiswyr wrth ail-greu'r olygfa a chofnodi ffeithiau perthnasol. Croesawyd y math hwn o gwestiwn ar gyfer ymgeiswyr is eu gallu. Nodwyd hefyd bod ateb ar ffurf pwyntiau bwled yn fodd hylaw i ailadrodd y stori ac yn un dull o arbed amser cofnodi mewn arholiad. Byddai annog pawb i ddefnyddio'r dull yma yn fuddiol. Gwobrwywyd ffeithiau ac enillwyd marciau uchel am y cwestiwn hwn. Serch hyn, rhaid cofio bwriad y cwestiwn sef ailadrodd gwybodaeth am ddigwyddiad penodol. Anogir canolfannau i dynnu sylw ymgeiswyr yn ofalus at eiriad cwestiynau a chanolbwyntio ar yr olygfa dan sylw. Roedd tueddiad i rai ymgeiswyr chwilio am gyfle i roi eu holl wybodaeth am y nofel yn eu hatebion i'r cwestiwn hwn. Rhaid cadw'n driw at yr olygfa dan sylw.

Ambell sylw:

Llyfr Glas Nebo : cyfeiriodd lawer o ymgeiswyr at y digwyddiad ar ddechrau'r nofel yn hytrach na'r olygfa gywir - byddai sefydlu llinell amser digwyddiadau yn werthfawr gydag ymgeiswyr, mae dipyn o her yn y nofel hon o ran cofio digwyddiadau, ac efallai bod hyn yn baglu rhai ymgeiswyr ar gyfer rhai cwestiynau

C6 Ymateb yn greadigol AA1 – 6 marc AA2 – 6 marc

Mae hwn yn gwestiwn cyfarwydd ac yn bleser i'w farcio. Canmolir gallu ymgeiswyr i gyfleu ymateb a theimladau cymeriadau i ddigwyddiadau a bod yn driw i eiriau'r cymeriad. Ymdebygai llawer ohonyn nhw iaith yr awduron, sy'n wych. Meysydd i'w hystyried ar gyfer gwella fyddai cadarnhau nodweddion ffurfiau – yr ymson yn yr achos yma. Roedd gormod o enghreifftiau yn y 3ydd person, ac er eu bod yn disgrifio digwyddiadau o safbwynt y cymeriad doedden nhw ddim yn ateb gofynion y cwestiwn. Mewn rhai achosion roedd y wybodaeth yn brin a arweiniai at ymsonau byrion nad oedd chwaith yn ateb y gofynion o fod o leiaf un dudalen o hyd. Fel cwestiwn 5, mae cyfeiriad penodol at olygfa neu ddigwyddiad yn y cwestiwn ac felly dylid cadw'n dynn at ofyniad y cwestiwn er mwyn osgoi cynnwys gwybodaeth amherthnasol, bod yn rhy arwynebol neu gyflwyno ffeithiau tu hwnt i'r olygfa.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ambell sylw:

Llechi er nad yw Glain yn brif gymeriad, mae iddi hanes ddiddorol a chyfle da i gyfleu ei theimladau – ni fu'r ymatebion i'r cymeriad yma cystal ag ymatebion ar y nofelau eraill gan eu bod yn rhy arwynebol a ffeithiol yn unig.

Jac angen gofal wrth ddarllen y cwestiwn – rhai wedi ysgrifennu ymson Jac yn hytrach na'i fam.

C7 Dehongli gwybodaeth AA1 – 2 farc

Gofynnwyd i ymgeiswyr gysylltu cymeriad gyda dyfyniad a oedd yn adlewyrchu eu personoliaeth neu ddigwyddiad pwysig. Doedd y cwestiwn hwn ddim yn gofyn bod ymgeiswyr wedi dysgu dyfyniadau ar eu cof, ond yn hytrach yn gallu dangos dealltwriaeth ohonyn nhw drwy eu geiriau. Cafwyd hwyl ar y cwestiwn ond mae angen gofal wrth gysylltu a pheidio â rhuthro. Byddai pren mesur i greu llinellau syth yn arfer da ac haws i ymgeiswyr wirio eu gwaith!

C8 Dehongli Arddull AA1 – 4 marc AA2 – 2 farc

Mae'r dyfyniad ar y papur yn llai na'r dyfyniadau a fu yn y gorffennol ac felly mae gofynion y cwestiwn hwn yn wahanol. Roedd trafod 3 nodwedd arddull mewn manylder yn ddigonol i ennill marciau uchel ar y cwestiwn hwn. Eleni, rhoddwyd marciau am ansawdd iaith i'r cwestiwn hwn. Mae gallu'r mwyafrif o ymgeiswyr i adnabod nodweddion arddull yn dda ond roedd sgiliau dehongli effaith y nodwedd i gyfrannu at awyrgylch y darn yn amrywio ar draws yr ystod gallu. Er ei fod wedi ei nodi'n glir eleni bod angen cyfeirio at nodweddion arddull, roedd gormod o ymgeiswyr wedi anwybyddu hyn a thrafod yr awyrgylch yn unig. Ar waelod yr ystod gallu gwelwyd terminoleg Saesneg, trafod yr un nodweddion e.e. elipsau neu ebychnod, a diffyg brawddegau i esbonio effaith. Serch hyn, mae'r goreuon yn gallu dehongli'n dda, yn dewis nodweddion gofalus ac yn llwyddo dal awyrgylch y dyfyniad a dadansoddi'n gelfydd a threiddgar.

Ambell sylw:

Jac a Tom dim ond 75% o'r ymgeiswyr roddodd gynnig ar y cwestiwn hwn – efallai bod angen mwy o ymarfer y math hwn o gwestiynau yn y dosbarth

C9 Dadansoddi gwybodaeth AA1 – 2 farc

Roedd ychydig mwy o her yn y cwestiwn hwn yn gofyn '*Pam*...' ac amrywiol oedd safon yr ymatebion. Llwyddodd llawer i ennill marciau uchel ond roedd nifer o fylchau gan rai nad oedd wir yn gallu ateb y cwestiwn.

Ambell sylw:

Llechi dryswch pam y derbyniodd Rachel gerdyn ymddygiad – golygfa'r ymosodiad gyda'r goes brosthetig yn allweddol i ateb y cwestiwn hwn.

Tom cyfeiriad at y dril Black and Decker wedi cynnig her i ymgeiswyr.

C10 Trafod, dadansoddi a dehongli gwybodaeth AA1 – 14 marc AA2 – 6 marc

Er bod amryw o gwestiynau heb eu hymdrechu gan lawer o ymgeiswyr, mae'n braf nodi bod y ganran a roddodd gynnig ar y cwestiwn hwn yn uchel. Roedd dewis o ddau gwestiwn – un ai thema neu drafod cymeriad – a oedd yn cynnig cyfle i bawb allu arddangos eu gwybodaeth am y nofel. O ran AA1, roedd gwybodaeth dda gan yr ymgeiswyr a'u dealltwriaeth o ddigwyddiadau'r nofel yn gadarn. Yn anffodus nid oedd safon AA2 yn cyfateb ag AA1. Gwelwyd gormod o ddefnydd o eiriau Saesneg, gwallau gramadegol, cystrawen sigledig a diffyg paragraffau yn atal trefn a chynllun i'r traethodau. Serch hyn, roedd y rhan fwyaf o'r traethodau yn estynedig ac yn ymestyn dros dudalen a hanner i dair tudalen gan gynnwys gwybodaeth berthnasol am y nofel.

© WJEC CBAC Ltd.2026

C10 a Cwestiwn thema

Doedd y cwestiwn hwn ddim mor boblogaidd â 10b, ond roedd ansawdd y traethodau yn trafod thema benodol i'r nofel yn rhagori ar ansawdd y cwestiwn arall. Gwelwyd aeddfedrwydd gan ymgeiswyr wrth ddewis a dethol golygfeydd perthnasol i amlygu ymhle yr oedd y thema'n amlwg. Cadwyd yn dynn at fwriad y cwestiwn gan symud yn llyfn o un enghraifft i'r nesaf wrth gadarnhau sylwadau. Defnyddiwyd dyfyniadau yn effeithiol i gefnogi eu gwybodaeth. Wrth fynd i fyny'r bandiau marciau gwelwyd bod strwythur cadarn i'r traethodau gydag agoriad a chlo a llawer o wreiddioldeb. Roedd y goreuon yn fanwl a threiddgar ac yn llwyddo dangos yn union pa effaith a gâi'r thema ar y plot a'r cymeriadau.

C10 b Cwestiwn cymeriad

Gofynnwyd i ymgeiswyr nodi *'Sut berson yw ...'* a'i berthynas ag eraill. Dylai ymgeiswyr wneud cysylltiadau ar draws yr unedau yn y cymhwyster gan nad ydy'r cwestiwn yma yn ddieithr. Roedd ansawdd y traethodau hyn, er yn boblogaidd, yn amrywiol iawn. Dylai ymgeiswyr astudio'r cwestiwn yn ofalus a thalu sylw i bob cymal. Gwelwyd rhai yn disgrifio'r cymeriad ac yn hepgor sôn am eu perthynas â chymeriadau, ac eraill yn osgoi disgrifio'r cymeriad ac yn canolbwyntio yn ormodol ar y perthnasoedd. Roedd tueddiad hefyd i restru gwybodaeth yn ormodol heb wneud ymgais i drafod a dadansoddi mewn manylder. Mae mwy i'r cwestiwn hwn na ffeithiau'n unig – rhaid wrth sgiliau dehongli. Gwna lawer ddefnydd effeithiol o baragraffau Pwynt Enghraifft Esboniad, gan ddewis ansoddeiriau ac enghreifftiau penodol i ddisgrifio'r cymeriadau. Roedd llawer yn dyfynnu'n helaeth i gefnogi eu sylwadau a chynnig syniadau diddorol a gwreiddiol am y cymeriadau. Medda lawer ar eirfa addas hefyd ar gyfer dehongli a oedd yn cyfoethogi'r traethodau.

Mae'r ymateb cadarnhaol i'r uned newydd hon yn dyst bod addysgu a dysgu arbennig o dda yn y canolfannau. Anogir pawb i edrych ar yr adnoddau digidol sydd wedi eu creu i gefnogi'r uned, a'u rhannu â'r ymgeiswyr i weithio'n annibynnol i ddysgu'r gwaith. Cofiwch hefyd ymgysylltu â hyfforddiant CBAC ar gyfer arweiniad pellach ar yr arholiad.

Diolch yn fawr iawn i chi am hyfforddi'r ymgeiswyr mor drylwyr ac ymateb i'r newid yn y cymhwyster mor esmwyth. Pob dymuniad da i'ch ymgeiswyr wrth barhau â'u hastudiaethau Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG

TGAU (Newydd)

Haf 2026

UNED 2 : HUNANIAETH

Trosolwg o'r Uned

Dyma flwyddyn gyntaf y fanyleb a'r uned hon, ble rhoddwyd rhwydd hynt i ganolfannau ddewis testun gweledol addas ar gyfer eu hymgeiswyr. Roedd ffilmiau Y Gwyll ac Y Weithred yn hynod boblogaidd, ond gwelwyd peth amrywiaeth yn ogystal, e.e. Patagonia, Y Coridor, Tân ar y Comin, Hafiach. Braf oedd gweld canolfannau'n dewis testun gweledol oed yn briodol i ddiddordeb a gallu'r ymgeiswyr.

Ar draws yr ystod gallu, roedd y mwyafrif helaeth yn arddangos brwdfrydedd a manylder wrth drafod ar lafar. Ar y brig, roedd y trafodaethau'n goeth, yn gyfoethog ac yn hoelio'r syniad o berthyn yn reddfol. Ymhellach, ymysg y goreuon, defnyddiwyd termau llunyddiaeth a dadansoddi ffilm yn ddeheuig gan berthnasu hyn i'r cysyniadau thematig o fewn y cyfanwaith. Fodd bynnag, collodd rhai ymgeiswyr fyddai'n hawlio marciau ar y bandiau uchaf gyfleoedd i ddefnyddio'r termau hyn wrth drafod, ac felly nid oedd modd iddynt gyrraedd y brig. Wrth dreiglo i lawr yr ystod, roedd y cyfeiriad at dechnegau'n prinhau ymhellach, gyda thueddiad i ailadrodd y stori. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r ymgeiswyr i ddehongli a dadansoddi crefft y ffilm.

Ar y cyfan roedd ansawdd ieithyddol y trafodaethau'n ganmoladwy, ac roedd ôl addysgu cadarn o ran termau pwnc, geirfa trafod a mynegi barn. Roedd ansawdd nifer o drafodaethau ar fand 5 yn rhagorol, ac yn batrwm i'w efelychu. Fodd bynnag, eleni roedd carfan arwyddocaol wedi gor-baratoi, ac yn darllen eu 'trafodaethau'. Gwelwyd nifer yn darllen, ac yn ychwanegu dim byd y tu hwnt i hyn, ac o'r herwydd bu'n rhaid cosbi .

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

AA1 – Deall ac Ymateb

Ar draws yr ystod gallu, roedd y mwyafrif helaeth yn arddangos brwdfrydedd a manylder wrth drafod ar lafar. Ar y brig, roedd y trafodaethau'n goeth, yn gyfoethog ac yn hoelio'r syniad o berthyn yn reddfol. Llwyddent hefyd i ystyried perthyn o fewn cyd-destun Hunaniaeth yn gyffredinol. Llwyddwyd i ddewis golygfeydd allweddol yn llwyddiannus gan lawer o'r ymgeiswyr. Ymhellach, ymysg y goreuon, defnyddiwyd termau llunyddiaeth a dadansoddi ffilm yn ddeheuig gan berthnasu hyn i'r cysyniadau thematig o fewn y cyfanwaith. Fodd bynnag, collodd rhai ymgeiswyr fyddai'n hawlio marciau ar y bandiau uchaf gyfleoedd i ddefnyddio'r termau hyn wrth drafod, ac felly nid oedd modd iddynt gyrraedd y brig. Dylai canolfannau sicrhau bod defnyddio termau llunyddol yn ganolog wrth drafod y testun gweledol. Wrth dreiglo i lawr yr ystod, roedd y cyfeiriad at dechnegau'n prinhau ymhellach, gyda thueddiad i ailadrodd y stori. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r ymgeiswyr i ddehongli a dadansoddi crefft y ffilm. Ar waelod yr ystod, braf oedd clywed cefnogaeth sensitif gan nifer o athrawon, fodd bynnag, roedd rhai achosion ble'r oedd yr ymyrraeth yn golygu fod y trafod yn troi'n sesiwn cwestiwn ac ateb.

© WJEC CBAC Ltd.2026

AA2 – Mynegi a Chyfathrebu
Ar y cyfan roedd ansawdd ieithyddol y trafodaethau'n ganmoladwy, ac roedd ôl addysgu cadarn o ran termau pwnc, geirfa trafod a mynegi barn. Roedd ansawdd nifer o drafodaethau ar fand 5 yn rhagorol, ac yn batrwm i'w efelychu. Hyfryd oedd clywed tafodieithoedd ar hyd a lled Cymru yn arwain at drafodaethau miniog ac aeddfed. Fodd bynnag, eleni roedd carfan arwyddocaol wedi gor-baratoi, ac yn darllen eu 'trafodaethau'. Gwelwyd nifer yn darllen, ac yn ychwanegu dim byd y tu hwnt i hyn. Mae'n rhaid hyfforddi dysgwyr mai pwyntiau bwled/nodiadau yn unig a ganiateir, nid brawddegau - neu mewn rhai achosion, baragraffau – llawn. Os yw ymgeisydd yn darllen, yna nid yw ei gyfraniad yn y cywair priodol. Bu'n rhaid cosbi yn yr achos hwn yn ogystal.

Roedd gallu grwpiau i siarad yn llithrig ac ymateb yn naturiol i'w gilydd yn amrywiol. Yn ogystal â darllen, gwelwyd carfan o ymgeiswyr yn ceisio defnyddio geirfa nad oedden nhw'n ei ddeall nac ychwaith yn gallu ynganu. Roedd nifer ar waelod y bandiau hefyd yn tueddu i siarad mewn pwyntiau bwled di-ferf, yn hytrach na defnyddio brawddegau llawn, ee. 'Tom Mathias yn y garafán.' Y mae angen i ganolfannau fwydo iaith er mwyn osgoi'r defnydd o dermau Saesneg wrth drafod, ac wrth ddyfarnu marc AA2, ni ellir gwobrwyo band 5 os and yw'r treigladau'n gywir. Roedd hyn yn bur amlwg mewn sawl achos gydag ymgeiswyr yn sicrhau marciau llawn ond yn dweud - i cael, y colled, gan dangos, y cynulleidfa a.y.b.

Gweinyddu
Yn gyffredinol, roedd safon y gwaith gweinyddol ar draws y canolfannau yn dda, yn enwedig o ystyried mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r uned newydd. Roedd mwyafrif yr ysgolion wedi cyflwyno'r samplau yn brydlon ac mewn modd trefnus. Fodd bynnag, mewn ambell achos, nid oedd y marciau wedi'u cefnogi gan anodi priodol. Mae hyn yn elfen bwysig o'r broses asesu, gan ei fod yn darparu tystiolaeth glir o sut mae'r meini prawf wedi eu cymhwyso ac yn gymorth sylweddol wrth safoni. Cofiwch hefyd gynnwys y nodiadau paratoi yn rhan o'r gwaith gweinyddol.
Yn seiliedig ar hyn, argymhellir i ganolfannau roi sylw i'r canlynol yn y dyfodol:

- Sicrhau bod anodi clir a phwrpasol yn cefnogi'r marciau a ddyfernir.
- Annog ymgeiswyr i ddefnyddio nodiadau fel cymorth yn unig, yn hytrach na dibynnu arnynt yn ormodol.
- Parhau i ddewis testunau sy'n addas i allu'r ymgeiswyr er mwyn cefnogi trafodaethau hyderus ac ystyrlon.

Yn gyffredinol, roedd yn amlwg bod llawer o ymgeiswyr wedi elwa ar baratoi gofalus, ac roedd safon y trafodaethau yn galonogol ar gyfer blwyddyn gyntaf yr uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG

TGAU (Newydd)

Haf 2026

UNED 3 : AGWEDDAU

Trosolwg o'r Uned

Ar draws y canolfannau, cyflwynwyd y gwaith yn brydlon ac yn drefnus, gyda'r dogfennau'n cael eu labelu'n glir ac yn unol â gofynion yr uned. Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau'n dangos trefniadaeth gadarn, gan gynnwys copïau glân o'r cerddi, nodiadau paratoi, a ffurflenni asesu wedi'u llofnodi'n briodol, gan adlewyrchu ymrwymiad cryf i sicrhau proses safoni esmwyth.

Darparwyd sylwadau manwl ar y taflenni marcio gan nifer o ganolfannau, gan egluro'n glir sut y cymhwyswyd y meini prawf asesu ar draws y ddwy dasg. Roedd hyn yn arbennig o werthfawr wrth safoni ac yn dangos safoni mewnol cadarn. Serch hynny, mewn rhai achosion, roedd diffyg sylwadau ar Dasg 2 yn amharu ar y broses safoni, ac roedd ansawdd sganio neu sain yn amrywio'n sylweddol rhwng canolfannau. Mewn achosion unigol, roedd nodiadau paratoi'n orfanwl, gan arwain at ddarllen yn hytrach na chyflwyno'n naturiol. Yn ogystal, gwelwyd tuedd mewn sawl canolfan i fod yn rhy hael wrth ddyfarnu marciau AA1 ac AA2.

Yn gyffredinol, caed trefniadaeth gadarn a pharodrwydd i gydymffurfio â gofynion yr uned, ond mae lle i gryfhau cysondeb o ran ansawdd y deunydd a'r sylwadau asesu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r defnydd o sylwadau asesu manwl a'r angen i sicrhau bod pob elfen o'r gwaith papur yn glir ac yn hygyrch.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Tasg 1 – Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi

Ar draws y canolfannau, gwelwyd dewis pwrpasol o gerddi a oedd yn apelio'n gryf at y dysgwyr. Yn aml, roedd y cerddi'n gysylltiedig â themâu cyfoes neu leol, megis Cymru a Chymreictod, Rhyfel a Gwrthdaro, Caethiwed, neu Perthynas ag Ardal Arbennig, gan sicrhau mynediad teg i bob dysgwr ar draws yr ystod gallu. Roedd gwahaniaethu'n cael ei weithredu'n sensitif, gyda cherddi'n cael eu paru'n ofalus â gallu'r dysgwyr, ac roedd y cwestiynau'n cael eu llunio'n feddylgar er mwyn annog ymateb personol a thrafodaeth o agweddau'r beirdd, a hynny'n glir o fewn y thema.

Roedd llawer o ymatebion yn dangos dealltwriaeth gadarn o gynnwys y cerddi, gyda thrafodaeth glir o'r arddull, y mesur a'r neges. Mewn sawl canolfan, gwelwyd croesgyfeirio deallus a chymharu pwrpasol a oedd yn codi ansawdd yr ymatebion. Roedd anodi manwl ar y traethodau'n dangos sut y cymhwyswyd y meini prawf asesu, ac roedd hyn yn arbennig o werthfawr wrth safoni. Yn ogystal, roedd strwythur y traethodau'n aml yn glir ac yn drefnus, gan adlewyrchu cynllunio ac arweiniad gofalus gan yr athrawon.

Serch hynny, roedd sawl maes cyson i'w datblygu. Roedd trafodaeth o gefndir y beirdd yn amrywio'n sylweddol, ac mewn rhai achosion roedd y cefndir yn ormodol neu heb gysylltiad clir â'r cwestiwn. Gwnaed gormod o bwyslais ar y cerddi synoptig mewn rhai ymatebion, gan golli'r cyfle i fynd dan groen y prif gerddi'n llawn. Roedd cywirdeb ieithyddol yn amrywio'n sylweddol ar draws y canolfannau, gyda gwallau treiglo, sillafu ac atalnodi'n amharu ar eglurder. Yn ogystal, anghyson oedd y dyfynnu, yn enwedig ar waelod yr ystod gallu, ac roedd trafodaeth o effeithiolrwydd y mesurau'n aml yn rhy fyr neu'n arwynebol. Yn gyffredinol, gwelwyd ymatebion dadansoddol cadarn, ond mae lle i gryfhau trafodaeth o'r mesurau barddol, cywirdeb ieithyddol, a dyfnder y cymharu o fewn y dasg hon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Tasg 2 – Cyflwyniad Llafar

Roedd y cyflwyniadau llafar yn dangos amrywiaeth eang o bynciau diddorol, yn aml yn gysylltiad clir i'r thema. Roedd y dysgwyr yn amlwg wedi eu paratoi'n bwrpasol, ac roedd y cyflwyniadau'n glir yn strwythuredig, gyda threfn a datblygiad pendant. Mynegwyd barn bersonol yn hyderus ac yn berthnasol, a defnyddiwyd cywair priodol a geirfa dechnegol berthnasol i'r pwnc gan nifer o ymgeiswyr. Mewn sawl canolfan, gwelwyd recordiadau clir a phroffesiynol, gyda defnydd medrus o dechnegau i ddal sylw'r gynulleidfa.

Roedd cyfeiriad at ddibynadwyedd ffynonellau'n gyson mewn nifer o ganolfannau, a gofynnwyd cwestiynau pwrpasol gan athrawon pan nad oedd yr ymgeisydd wedi gwneud hynny'n wirfoddol. Roedd hyn yn sicrhau bod y dysgwyr yn ymgysylltu â'r gofynion craidd o fewn y dasg ac yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwerthuso ffynonellau.

Serch hynny, roedd ansawdd sain rhai traciau'n amrywio, gan ei gwneud yn anodd clywed ymatebion yn glir ac fe amharwyd ar y broses safoni mewn achosion o ganlyniad. Roedd hyd y cyflwyniadau'n anghyson mewn sawl canolfan hefyd, gyda rhai cyflwyniadau'n ymestyn i 7–9 munud, sy'n groes i'r cyfyngiad amser o **bum munud**. Gwelwyd yn gyffredinol bod cyfeiriad at ddibynadwyedd ffynonellau'n brin mewn cyflwyniadau canol y bandiau, ac roedd cystrawen ailadroddus a defnydd o eiriau Saesneg yn amharu ar gywair rhai cyflwyniadau. Mewn achosion unigol, caed gorddibyniaeth ar nodiadau a amharwyd ar lif naturiol y cyflwyniad. Nid wnaed cysylltiad clir â'r thema mewn rhai canolfannau ychwaith.

Yn gyffredinol, meithrinwyd hyder llafar cadarn o fewn y dasg, ond mae lle i gryfhau cysondeb o ran hyd y cyflwyniad, trafodaeth o ddibynadwyedd ffynonellau, a naturioldeb y cyflwyniad.

Diolch i'r canolfannau am eu gwaith manwl, eu trefniadaeth, a'r gefnogaeth a roddwyd i'r dysgwyr ar draws yr uned. Gwnaed ymroddiad cryf i sicrhau safonau teg ac unffurf, ac mae'n amlwg bod y dysgwyr wedi elwa o'r paratoad gofalus, y gwahaniaethu sensitif, a'r cyfleoedd i fynegi barn yn hyderus ac yn bwrpasol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd eleni yn dyst i ymrwymiad proffesiynol ac i ofal athrawon ar draws y wlad.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Eich cefnogi chi

Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02922 404255
E-bost: cymraeg@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/tgau-iaith-a-llenyddiaeth-gymraeg-dysgu-o-2025/ - tab_keydocuments

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Manylion Cyswllt Defnyddiol | CBAC

Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda phrofiad o 70 mlynedd a mwy, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2026